# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 31 Ionawr 2018

Amser y cyfarfod: 13.30

# 116(v2)

## 1 Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i Ysgrifennydd y Cabinet ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 2 Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i Ysgrifennydd y Cabinet ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 3 Cwestiynau Amserol

(20 munud)

**Gofyn i Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol:**

Darren Millar (Gorllewin Clwyd): A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am ffigurau marwolaethau mewn adrannau achosion brys yng Nghymru?

Cynulliad Cenedlaethol Cymru National Assembly for Wales

**Gofyn i Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid:**

Simon Thomas (Canolbarth a Gorllewin Cymru): Pa asesiad y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud o effaith gadael yr UE ar Gymru ar sail y dadansoddiad o dair sefyllfa gan Adran Gadael yr Undeb Ewropeaidd a ddatgelwyd ddydd Llun?

## 4 Datganiadau 90 Eiliad

(5 munud)

## 5 Dadl Aelodau o dan Reol Sefydlog 11.21(iv) – Contractau preswyl lesddaliad

(60 munud)

**NDM6626**

Mick Antoniw (Pontypridd)
David Melding (Canol De Cymru)
David Rees (Aberafan)
Sian Gwenllian (Arfon)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn cydnabod bod contractau preswyl lesddaliad yn parhau i gynrychioli cyfran sylweddol o eiddo a adeiladir o'r newydd yng Nghymru; a

a) bod contractau preswyl lesddaliad yn aml yn cael eu cynnig ar delerau anfanteisiol, gan arwain at niwed i berchennog y cartref; a

b) mai ychydig o amddiffyniad sydd gan berchnogion cartrefi lesddaliad rhag ffioedd afresymol ac oedi afresymol wrth brynu, gwerthu neu wella eu heiddo.

2. Yn nodi gwaharddiad arfaethedig Llywodraeth y DU ar werthu eiddo lesddaliad a adeiladir o'r newydd yn Lloegr.

3. Yn credu y dylai Llywodraeth Cymru gymryd camau i ddiogelu perchnogion cartrefi yn y dyfodol drwy ddiddymu contractau preswyl lesddaliad yng Nghymru.

**Cefnogwyr:**

Mike Hedges (Dwyrain Abertawe)

Julie Morgan (Gogledd Caerdydd)

Jenny Rathbone (Canol Caerdydd)

Russell George (Sir Drefaldwyn)

Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Darren Millar (Gorllewin Clwyd)

Simon Thomas (Canolbarth a Gorllewin Cymru)

Jayne Bryant (Gorllewin Casnewydd)

Janet Finch-Saunders (Aberconwy)

Lynne Neagle (Torfaen)

Joyce Watson (Canolbarth a Gorllewin Cymru)

Vikki Howells (Cwm Cynon)

Dawn Bowden (Merthyr Tudful a Rhymni)

## 6 Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Deisebau ar Fynediad at Drafnidiaeth Gyhoeddus ar gyfer Pobl Anabl

(60 munud)

**NDM6643** **David J. Rowlands (Dwyrain De Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Deisebau ar y ddeiseb: Sicrhau y gall Pobl Anabl Ddefnyddio Trafnidiaeth Gyhoeddus Pryd Bynnag y Bo'i Hangen Arnynt (P-05-710), a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 10 Hydref 2017.

Nodyn: Gosodwyd ymateb Llywodraeth Cymru i'r adroddiad yn y Swyddfa Gyflwyno ar 24 Ionawr 2018.

## 7 Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar Iechyd Meddwl Amenedigol yng Nghymru

(60 munud)

**NDM6642** Lynne Neagle (Torfaen)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar Iechyd Meddwl Amenedigol yng Nghymru a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 17 Hydref 2017.

Nodyn: Gosodwyd ymateb Llywodraeth Cymru ar 28 Tachwedd 2017.

## 8 Cyfnod Pleidleisio

## 9 Dadl Fer

(30 munud)

**NDM6644** Suzy Davies (Gorllewin De Cymru)

Agor drysau: sicrhau eglurder ynghylch mynediad i bobl anabl ac argaeledd diffibrilwyr

Galw am system lle mae'r holl fusnesau a gwasanaethau cyhoeddus yn arddangos manylion am eu lefel o hygyrchedd i bobl anabl yn ogystal â gwybodaeth am pa offer achub bywyd sydd ar gael i'w defnyddio gan y cyhoedd os bydd argyfwng.

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mawrth, 6 Chwefror 2018